



Prifysgol Caerdydd
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
Cyrsiau byr: Gorffennaf - Rhagfyr 2019

cardiff.ac.uk/cy/professional-development

Pam dewis Prifysgol Caerdydd ar gyfer eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus?



Dosbarthiadau bach MEWN lleoliadau yng **nghanol y ddinas**

Mae gennym brofiad helaeth gyda busnesau **lleol**, cenedlaethol a **rhyngwladol**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch neu ebostiwch ein tîm cyfeillgar a fydd yn hapus i'ch helpu i ddod o hyd i'r opsiwn cywir ar gyfer eich busnes.

Ein harbenigedd

Rydym yn un o brifysgolion blaenllaw Grŵp Russell, sy'n adnabyddus am addysgu ardderchog, ymchwil ragorol a chysylltiadau â busnesau a'r diwydiant.

P'un a ydych yn fusnes sydd am ddatblygu eich staff, yn unigolyn sy'n ceisio datblygu eich gyrfa drwy gwrw byr, neu'n sefydliad proffesiynol sy'n chwilio am gyfleoedd i ddatblygu, mae gennym rywbeth ar eich cyfer chi.

Gydag arbenigedd sy'n cynnwys sawl sector a disgyblaeth, mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol helaeth sydd wedi'u dylunio i godi lefelau sgiliau a rhoi gwybodaeth a thechnegau arloesol i gyfranogwyr.

Ein cyfleoedd hyfforddiant DPP

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi manylion am yr ystod eang o gyrsiau DPP byr sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys ein rhaglen agored o opsiynau datblygiad proffesiynol.

Mae'r rhaglen agored, a ddyluniwyd ar gyfer unigolion a busnesau, yn ymdrin â phynciau megis marchnata, cyfathrebu ar-lein, rheoli prosiectau a rheoli pobl. Ceir hefyd nifer o gyrsiau meddygol byr, a gynhelir gan yr Ysgol Meddygaeth, sy'n cynnig hyfforddiant

Tua diwedd y llyfryn hwn, cewch fanylion am fodiwlau ôl-raddedig a addysgir yn unigol, sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol i'w defnyddio fel DPP. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan.

Gallwn hefyd gynnig ein cyrsiau agored wedi'u teilwra'n arbennig i fodloni gofynion penodol eich busnes/sefydliad. (Gweler y manylion ar dudalen 4).

Uned DPP bwrpasol

Mae gan ein tîm o arbenigwyr yn yr Uned Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) brofiad helaeth o weithio gyda sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Rydym ni yma i roi porth i fusnesau fanteisio ar yr ystod eang o arbenigedd sydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Byddwn yn eich arwain drwy'r broses, gan hwyluso'r gwaith o droi ymchwil a gwybodaeth yn weithgareddau hyfforddiant ymarferol ac effeithiol.

Rydym yn falch o feddu ar Safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid yn yr Uned DPP. Rydym wedi ymrwmo i gynnig gwasanaeth sy'n groesawgar, yn ddibynadwy ac yn well na disgwyliadau cwsmeriaid.



Rydym yn dîm sy'n **canolbwyntio ar y cwsmer** yn un o brifysgolion mawreddog **Grŵp Russell**

Mae o leiaf **90%** o gwsmeriaid DPP yn meddwl bod lefel ein gofal a chywirdeb y wybodaeth yn **dda** neu'n **adderchog**



Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid

Rydym wedi ymrwmo i gynnig gwasanaeth croesawgar, dibynadwy ac sydd y tu hwnt i ddisgwyliadau ein cwsmeriaid.

Gallwch fod yn sicr y bydd eich profiad o weithio gyda'r Uned DPP ym Mhrifysgol Caerdydd yn un cadarnhaol a chyfeillgar. Rydym ni'n falch iawn o feddu ar safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid. Ym mis Tachwedd 2018, dyfarnwyd ein trydedd wobwr 'Compliance Plus' i ni am ein gofal parhaus i gwsmeriaid.

Gyda chefnogaeth Swyddfa'r Cabinet, mae safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid yn cydnabod sefydliadau sydd wir yn rhoi eu cwsmeriaid wrth wraidd yr hyn y maen nhw'n ei wneud.

Hyfforddiant pwrpasol wedi'i deilwra

Gallwn greu gweithgareddau hyfforddi a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer eich sefydliad. Siaradwch â ni am sut y gallwn greu rhaglen bwrpasol neu fewnol ar eich cyfer chi.

Yr hyn y gallwn ei gynnig i'ch busnes

Mae gennym brofiad helaeth o weithio gyda busnesau a sefydliadau o ran paratoi a chyflwyno atebion dysgu perthnasol, cost-effeithiol, pwrpasol ac o ansawdd uchel.

Ym Mhrifysgol Caerdydd gallwn:

- Gyflwyno cyrsiau o'n rhaglen bresennol yn benodol ar gyfer eich sefydliad
- Teilwra cynnwys o'n cyrsiau sy'n addas i'ch busnes
- Dylunio rhaglen neu weithgaredd hyfforddiant gwbl bwrpasol i fodloni amcanion eich sefydliad.

Mae'r dysgu'n ymarferol a rhoddir pwyslais penodol ar drafod a rhyngweithio, a chael gwybod sut y gall sgiliau a gwybodaeth newydd gael eu defnyddio yn y gweithle. Ein nod yw sicrhau y gall gweithwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau i'r eithaf, a fydd yn helpu sefydliadau i fod yn arloesol, yn gystadleuol ac yn gyfoes bob amser.

Caiff ein darpariaeth hyfforddiant ei diweddarau'n gyson i adlewyrchu anghenion busnes a'r datblygiadau diweddaraf yn y diwydiant.

Ategir ein cyrsiau gan ymchwil o'r radd flaenaf ac arbenigedd addysgu, a chânt eu llywio gan ein cysylltiadau agos â diwydiant, cyrff proffesiynol a'r sector cyhoeddus.

Yn dibynnu ar amcanion a phynciau, mae gweithgareddau DPP ar gael mewn ystod o fformatau – mae hyn yn cynnig hyblygrwydd ac yn bodloni gofynion unigol eich busnes.

Mae'r Uned DPP yn gweithio gydag academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant ar draws 24 o Ysgolion a thri Choleg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Arbenigedd ar draws tri Choleg

Mae gennym dri Rheolwr Datblygu Busnes, ac mae pob un ohonynt yn gweithio'n agos gydag un o'r Colegau:

Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol – Phil Swan

Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd – Charlotte Stephenson

Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg – Kate Sunderland

Tîm pwrpasol yr Uned DPP

Bydd tîm yr Uned DPP yn borth ar eich cyfer ac yn eich cefnogi chi a'ch busnes i fanteisio ar arbenigedd ac ymchwil blaenllaw Prifysgol Caerdydd ar draws ystod o ddisgyblaethau.

Byddwn yn cydweithio â chi, drwy'r broses o adnabod problem eich busnes hyd at ddylunio'r cwrs a gwerthuso'r hyfforddiant.

Mae hyn yn sicrhau ein bod yn deall eich busnes drwyddi draw, ac yn cynnig hyfforddiant sydd wedi'i deilwra'n benodol i ofynion eich sefydliad. Mae gweithio fel hyn yn ein galluoigi i drin eich hyfforddiant mewn modd ymarferol a chreu canlyniadau pendant a allai gael effaith ar eich busnes ar unwaith.

Os hoffech drafod sut y gall gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd fod o fudd i'ch busnes, ffoniwch neu ebostiwnch dîm yr Uned DPP i gael sgwrs anffurfiol i ddechrau.

Ewch i'n gwefan hefyd i gael rhagor o wybodaeth, a chymryd cipolwg ar achosion achos ein darpariaeth pwrpasol ddiweddar.

Cynnwys

Cyfathrebu

Sgiliau Ysgrifennu ar gyfer Busnes
Cyfathrebu Hyderus
Sgiliau Cyflwyno

Marchnata a chyfathrebu ar-lein

Dadansoddeg Google
Optimeiddio Peiriannau Chwilio
Datblygu Strategaeth Gyfathrebu
Cyflwyniad i Farchnata Digidol
Marchnata Digidol Uwch
Cysylltiadau â'r Cyfryngau
Ysgrifennu Copi
Ysgrifennu ar gyfer y We
Google Ads

Sgiliau rheoli a threfnu

Sgiliau Hyfforddi yn y Gweithle i Reolwyr
Rheoli Perfformiad ar Gyfer Canlyniadau
Hyfforddi'r Hyfforddwr
Hunandrefnu Effeithiol

Rheoli Prosiectau

PRINCE2® Sylfaen ac Ymarferydd
Cwrs hyfforddiant AgilePM® Sylfaen ac Ymarferydd
Cwrs hyfforddiant dysgu cyfunol PRINCE2®
MSP® cwrs hyfforddiant dysgu cyfunol
Rheoli Prosiectau

Addysg Weithredol

Rhaglen Arweinyddiaeth a Gweinyddu Busnes (LBA)
LEAN Six Sigma
Cyflwyniad i Arferion Di-wastraff (Lean) a Rhagoriaeth Weithredol
Rhaglen Arbenigol Arferion Di-wastraff
Rhaglenni Addysg Weithredol Pwrpasol

Meddygaeth

Diwrnod Astudio Diweddariadau Hanfodol Mewn Therapiwteg
Cyflwyniad i Ddermoscopi
Oncoleg Gymunedol
Sgiliau Addysgu Effeithiol (ar gyfer Clinigwyr)
Gofal Lliniarol

Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer)

Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth drwy Broses

Gofal Iechyd

Athrofa Therapiau Lleiaf Ymyrrol Cymru (WIMAT)

Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

Rhoi Presgripsiynau'n Annibynnol gan Fferyllwyr
Fferylliaeth Glinigol (MSc)
Ymchwil Glinigol (MSc)

Modiwlau ôl-raddedig unigol

Ar gael gan yr Ysgolion academiaidd canlynol:

Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau ymdeithasol

Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio
Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth
Ysgol Ieithoedd Tramor Modern
Ysgol Busnes Caerdydd

Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd

Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
Yr Ysgol Meddygaeth
Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg

Ysgol Peirianeg
Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth
Ysgol Cemeg
Ysgol Pensaerniaeth Cymru

Cyfathrebu

Cyfres o gyrsiau DPP 1 diwrnod i'ch helpu i ymgysylltu'n well, p'un a ydych yn cyflwyno i grŵp neu un-i-un. Cewch ddysgu sut i gyfleu negeseuon yn eglur, yn effeithlon ac yn broffesiynol, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig. Cewch arbed 10% wrth gofrestru ar gyfer 2 gwrs ar yr un pryd (gweler y categorïau dan sylw).

Sgiliau Ysgrifennu ar gyfer Busnes
12 Medi 2019
£198

Cyfathrebu Hyderus
Cysylltwch â ni i gael y dyddiadau
£198

Sgiliau Cyflwyno
15 Tachwedd 2019
£198

Bydd y cwrs undydd hwn yn eich helpu i gyfathrebu'n gliriach ac yn fwy hyderus yn eich holl waith ysgrifennu sy'n gysylltiedig â busnes a gynhyrchir ganddynt, o negeseuon e-bost syml i adroddiadau llawn. Drwy wneud pethau'n iawn y tro cyntaf ac osgoi ail-ysgrifennu droeon sy'n cymryd amser, byddwch yn fwy effeithlon ac yn fwy cynhyrchiol. A thrwy ysgrifennu mewn Saesneg clir, gall busnesau a sefydliadau sicrhau bod eu dulliau cyfathrebu ysgrifenedig yn fwy tryloyw a chynhwysol ac yn cael eu darllen gan fwy o bobl.

Ar gyfer pwy?
Unrhyw un sy'n defnyddio'r gair ysgrifenedig yn eu gwaith ac sydd am wella ansawdd, effaith ac effeithlonrwydd eu hysgrifennu.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i ysgrifennu mewn Saesneg clir
- Dysgu sut i osgoi'r gwallau cyffredin mewn atalnodi a gramadeg
- Sut i ysgrifennu ar gyfer pobl o wahanol alluoedd darllen
- Dysgu dylanwadu ar ddarllenwyr gyda thechnegau ysgrifennu darbwylol
- Y pŵer y gall cyflwyniad gwyh ei roi i'ch gwaith.

Mae pobl sydd â sgiliau cyfathrebu ardderchog yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus yn eu gwaith. Mae pa mor dda rydych chi'n cyfathrebu yn pennu sut rydych chi a'ch syniadau yn cael eu cyfleu ac a ydych yn cyflawni eich amcanion neu beidio. Bydd y cwrs undydd hwn yn archwilio tactegau a dulliau i wella eich gallu i gyfathrebu yn hyderus. P'un a ydych chi'n newydd i fyd gwaith neu'n brofiadol bydd gan y cwrs hwn rhywbeth i'w gynnig i chi.

Ar gyfer pwy?
Y rheini sydd angen cynyddu eu hyder mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwaith, gan gynnwys digwyddiadau rhwydweithio, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i adeiladu perthynas a gwella cysylltiadau
- Beth yw nerfau, pam maent yno a sut i'w rheoli
- Sut y gall iaith y corff helpu neu lesteirio
- Presenoldeb a phŵer bod yn y foment
- Pŵer gwrando a chyfleu eich neges
- Brandio personol
- Cynnal cyflwr cadarnhaol.

Gall rhoi perfformiad atyniadol fod yn hwb gwirioneddol i brofiad y cwsmer, gwerthiant, cyfathrebu mewnol/allanol a phroffil y cwmni. Bydd y cwrs undydd hwn yn addysgu technegau perfformio a fydd yn sicrhau eich bod yn gallu creu argraff a chyfleu gwybodaeth i gynulleidfa'n llwyddiannus.

Ar gyfer pwy?
Pobl sydd angen datblygu eu sgiliau cyflwyno a rhoi hwb i'w hyder yn eu gallu i siarad yn gyhoeddus.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i ddatblygu cyflwyniad egnïol ac atyniadol
- Sut i hoelio sylw eich cynulleidfa a darparu rhoi cyflwyniadau effeithiol iawn
- Tactegau fydd yn eich helpu i fod yn gyflwynydd hyderus, awdurdodol a chofiadwy
- Deall effaith eich llais
- Sut y gall egni eich cymell chi a'ch cynulleidfa
- Sut i dargedu eich cyflwyniad i fod yn addas ar gyfer anghenion eich cynulleidfa.



Gostyngiad o 10%
Cofrestrwch ar gyfer unrhyw 2 o'r cyrsiau hyn

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chadw eich lle ar-lein – neu ffoniwch ein tîm cyfeillgar ar (029) 2087 5274.

Marchnata a chyfathrebu ar-lein

Cewch ddatblygu sgiliau ymarferol mewn marchnata digidol a marchnata ar-lein. Mae'r gweithdai hyn wedi'u dylunio i ategu ei gilydd er mwyn gwella eich dealltwriaeth o farchnata yn yr oes ddigidol. Cewch arbed 10% wrth gofrestru ar gyfer 2 gwrs ar yr un pryd (gweler y categorïau dan sylw).

Dadansoddeg Google
3 Hydref 2019
£198

Optimeiddio Peiriannau Chwilio
17 Medi 2019
£198

Datblygu Strategaeth Gyfathrebu
16 Medi 2019
£198

Erbyn diwedd y cwrs undydd hwn, byddwch yn gallu agor proffil Google Analytics newydd a dechrau cael dealltwriaeth y gellir cymryd camau ar ei sail i wneud i'ch gwefan a'ch busnes weithio'n well. Byddwch yn gallu ateb cwestiynau am draffig eich gwefan a sut y mae rhannau gwahanol o'r safle yn defnyddio ac yn creu dangosfyrddau rhyngweithiol a phwerau sy'n eich galluogi i greu adroddiadau misol yn haws ac yn gyflymach.

Ar gyfer pwy?
Gweinyddwyr a rheolwyr gwefannau, blogwyr, masnachwyr e-fasnach o bob maint, hysbysebwy digidol, rheolwyr SEO a chyfryngau cymdeithasol, datblygwyr a dylunwyr gwefannau. Does dim angen i chi fod yn gyfarwydd â Dadansoddeg Google. Mae'n fantais os oes gennych eisoes gyfrif Dadansoddeg Google, ond gall y rheini sydd heb ddefnyddio cyfrif arddangos sydd â'r holl nodweddion.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Beth mae newidynnau a metrigau Google Analytics yn eu golygu (e.e. cyfradd bownsio, ffynhonnell a chyfrwng) a beth sydd bwysicaf ar gyfer eich gwefan eich hun
- Sut i adnabod tagfeydd a phroblemau dylunio, gweld beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei addasu
- Sut i fonitro ac ymchwilio perfformiad yn ôl tudalen neu darddle ymwelwyr
- Sut i adeiladu a rhannu dangosfyrddau personol drwy ddefnyddio Stiwdio Data Google
- Sut i sefydlu segmentau personol a pha fath o gwestiynau y gallant eu hateb
- Sut i dracio ymgyrchoedd yn gywir a mesur adenillion ar fuddsoddiad (ROI)
- Sut i osod nodau a digwyddiadau.

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â hanfodion Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) ac yn cyffwrdd ar bynciau mwy datblygedig yn ogystal. Bydd yn eich helpu i wella ehangder ac ansawdd eich safle gyda Google a phrif beiriannau chwilio eraill, a gwneud yn siŵr eich bod chi'n manteisio'n llawn ar bob awr sy'n cael ei fuddsoddi mewn tasgau SEO.

Ar gyfer pwy?
Y rheini sy'n rheoli neu'n creu cynnwys ar gyfer eu gwefan ac eisiau dysgu sut i gael traffig chwilio organig o safon uwch.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth ymlaen llaw.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i asesu eich safle presennol yn y farchnad chwilio
- Sut i wella eich safleoedd mewn Peiriannau Chwilio
- Camgymeriadau cyffredin SEO i'w hosgoi
- Sut i fesur adenillion ar fuddsoddiad ar eich ymdrechion.



Gostyngiad o 10%
Cofrestrwch ar gyfer unrhyw 2 o'r cyrsiau hyn

Mae datblygu strategaeth ar gyfer Cyfathrebu Allanol a Mewnol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eich negeseuon allweddol yn cyrraedd eich cynulleidfaoedd, rhan-ddeiliaid a chwsmeriaid allweddol. Mae'r cwrs undydd hwn yn cwmpasu'r broses gyflawn o adeiladu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr – o gysyniadau craidd i fethodolegau datblygu.

Ar gyfer pwy?
Y rheini sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyfathrebu mewnol ac/neu allanol.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth ymlaen llaw.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Beth yw cyfathrebu, sut rydym yn cyfathrebu a beth yw ei rôl o fewn strwythur rheoli
- Sut i fanteisio i'r eithaf ar bob maes cyfathrebu o fewn eich sefydliad, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y marchnadoedd a'r rhan-ddeiliaid cywir drwy amrywiaeth o gyfryngau
- Proses gam wrth gam tuag at gynllunio strategaeth, ddiffinio nodau ac amcanion, a chyflwyno'ch strategaeth mewn fframwaith clir ac ymarferol
- Strategaeth gyfathrebu sefydliadol a strategaeth gyfathrebu fewnol ac allanol a strategaeth ymgyrch.



Marchnata a chyfathrebu ar-lein

Cewch ddatblygu sgiliau ymarferol mewn marchnata digidol a marchnata ar-lein. Mae'r gweithdai hyn wedi'u dylunio i ategu ei gilydd er mwyn gwella eich dealltwriaeth o farchnata yn yr oes ddigidol. Cewch arbed 10% wrth gofrestru ar gyfer 2 gwrs ar yr un pryd (gweler y categorïau dan sylw).

Cyflwyniad i Farchnata Digidol
14 Hydref 2019
£198

Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio'r prif dechnegau marchnata digidol a datblygu cynllun marchnata digidol cost-effeithiol yn y cwrs ymarferol un diwrnod hwn. Byddwn yn mynd â chi y tu hwnt i Google, gan gyflwyno i chi offer am ddim i ddadansoddi cystadleuwyr, yna yn dangos i chi sut i ddatblygu adnodau PPC, strategaethau cyfryngau cymdeithasol, marchnata effeithiol ar yr ebost a chynnwys ac yn eich helpu i fynd i'r afael â gwaith hanfodol ar SEO a dadansoddi gwe.

Ar gyfer pwy?

- Busnesau a sefydliadau sydd eisiau datblygu cynllun marchnata digidol cost-effeithiol
- Staff marchnata traddodiadol sy'n ceisio dysgu neu loywi eu sgiliau digidol
- Rheolwyr a gweinyddwyr sy'n dymuno gwella eu set o sgiliau gyda'r technegau hyn sy'n boblogaidd iawn.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Manteision ac anfanteision gwahanol dechnegau, gan gynnwys eu cost-effeithiolrwydd
- Sut i gael gwybod am strategaethau marchnata digidol cwmnïau eraill
- Sut i gynhyrchu cynllun marchnata digidol effeithlon ac effeithiol.

Marchnata Digidol Uwch
5 Tachwedd 2019
£198

Dysgu'r technegau marchnata digidol diweddaraf a datblygu strategaethau uwch ar gyfer marchnata busnesau B2B a B2C a brandiau.

Byddwch yn ymgyfarwyddo ag SEO, yn gwneud ysgrifennu copi ar-lein yn ddiddorol ac yn creu hysbysebion chwilio pwerus. Cewch ddysgu am aifarchnata, yr agweddau allweddol ar fideo, cymwysiadau arbennig cyfryngau cymdeithasol a phŵer a maglau marchnata e-bost. Yna dewiswch y technegau sy'n gweithio orau i chi a dewch â nhw i gyd at ei gilydd mewn cynllun marchnata wedi'i drefnu'n dda ac ar sawl ffurf.

Ar gyfer pwy?

- Busnesau a sefydliadau sydd eisiau gwella sgiliau eu timau marchnata
- Staff marchnata sy'n ceisio ehangu a chryfhau eu sgiliau digidol
- Pobl o rolau eraill ond â phrofiad o ddefnyddio technegau marchnata digidol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Technegau uwch a'r syniadau diweddaraf ar gyfer defnyddio gwahanol lwyfannau digidol
- Pa strategaethau sy'n gweithio orau ar gyfer nodau gwahanol a chynulleidfaoedd targed gwahanol
- Sut i gynhyrchu cynllun marchnata digidol aml-sianel effeithlon ac effeithiol.

Cysylltiadau â'r Cyfryngau
19 Tachwedd 2019
£198

Bydd y cwrs ymarferol hwn, a fydd yn para am un diwrnod, yn canolbwyntio ar sut i ymgysylltu â'r cyfryngau, boed ar ffurf print, darlledu, ar-lein neu'n gymdeithasol, mewn ffordd effeithiol a chreadigol. Byddwch yn magu dealltwriaeth o sut mae'r cyfryngau yn gweithio, sut i gynnig a gwerthuso stori a sut i ymgyrchu'n effeithiol ar y cyfryngau.

Ar gyfer pwy?

Mae'r cwrs hwn yn cynnig rhywbeth i bawb sydd â chyfrifoldeb dros gysylltiadau â'r cyfryngau ar gyfer eich sefydliad, p'un a ydych chi'n hollol newydd i gysylltiadau â'r cyfryngau, yn meddu ar rywfaint o brofiad, neu heb hyfforddiant ffurfiol.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth ymlaen llaw.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i ddatblygu dull sy'n strategol ac yn rhan hanfodol o'ch cymysgedd marchnata
- Gwybodaeth a dulliau ar gyfer cynllunio ymgyrch cysylltiadau cyfryngau effeithiol a llwyddiannus
- Sut i ddenu sylw cadarnhaol at storïau
- Sut a phryd i ymgysylltu â newyddiadurwyr gan ddefnyddio tactegau arloesol.

Ysgrifennu Copi
6 Tachwedd 2019
£198

Bydd y cwrs undydd ymarferol hwn yn eich helpu i ddeall sut i ysgrifennu copi proffesiynol ac effeithiol.

Byddwch yn cael dealltwriaeth o beth sy'n gwneud stori dda a thechnegau allweddol ar gyfer ysgrifennu copi effeithiol, creadigol a diddorol, yn ogystal â phwysigrwydd prawf ddarllen llwyddiannus.

Ar gyfer pwy?

Y rheini sydd angen ysgrifennu copi effeithiol er mwyn ceisio hyrwyddo a denu busnes neu sydd am wella eu sgiliau cyfathrebu.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol
- Pwysigrwydd y gwahanol fathau o arddull a chywair sydd eu hangen ar gyfer yr amrediad amrywiol o gyfryngau
- Sut i brawf ddarllen eich copi yn llwyddiannus.

Ysgrifennu ar gyfer y We
2 Hydref 2019
£198

Os yw eich gwefan yn mynd i fod yn effeithiol, mae'n rhaid i chi ysgrifennu copi sy'n plesio peiriannau chwilio a phobl fel ei gilydd. Mae'r cwrs undydd hwn yn dangos i chi sut i greu copi sydd wir yn diwallu eich anghenion ar-lein.

Ar gyfer pwy?

- Datblygwyr cynnwys
- Unrhyw un sy'n ysgrifennu neu'n golygu copi ar gyfer gwefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol
- Arbenigwyr SEO sydd eisiau datblygu sgiliau ysgrifennu.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Egwyddorion a thechnegau penodol i ysgrifennu llwyddiannus ar-lein
- Sut i gynhyrchu cynnwys gwe sy'n apelio, yn effeithiol, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn briodol ar gyfer eich cynulleidfaoedd
- Sut i optimeiddio copi ar gyfer peiriannau chwilio
- Dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng copi ar-lein ac all-lein.

Google Ads
18 Tachwedd 2019
£198

Mae'n debyg mai Google Ads, sef Google AdWords gynt, yw platform hysbysebu ar-lein mwyaf poblogaidd y byd. Fel unrhyw weithgarwch marchnata y telir amdano, dyliid ei osod yn ofalus.

Bydd defnyddio'r nodweddion, allwedddeiriau, hysbysebion a phwyntiau glanio cywir yn arwain at adenillion llawer gwell ar unrhyw fuddsoddiad.

Ar gyfer pwy?

Mae'r cwrs hwn ar gyfer pobl sy'n creu cyfrif Google Ads o'r newydd, neu'n ehangu'n sylweddol ar un sydd eisoes yn bodoli. Mae'r cwrs hwn yn addas hefyd os ydych yn dymuno ennill arbenigedd gwerthfawr yn y sector marchnata digidol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Pa fath o ymgyrchoedd sy'n iawn ar gyfer eich sefydliad
- Sut i ddewis allwedddeiriau a chynulleidfaoedd
- Sut i greu hysbysebion testun a delwedd
- Sut i sefydlu chwiliad safonol, aifarchnata syml ac ymgyrchoedd arddangos
- Sut i gysylltu Google Ads a gwybodaeth gwe analytig
- Addasu cynigion yn ôl dyfais, amser a lleoliad.



Cofrestrwch ar gyfer unrhyw 2 o'r cysylltu hyn

Gostyngiad o

10%

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chadw eich lle ar-lein – neu ffoniwch ein tîm cyfeillgar ar (029) 2087 5274.



Cewch fanylion llawn y cwrs ar ein gwefan: cardiff.ac.uk/cy/professional-development

Sgiliau rheoli a threfnu

Byddwn yn eich helpu i ragori fel rheolwr. Dysgwch i ddatblygu a meithrin eich tîm. Mae'r cyrsiau'n cynnwys y cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr poblogaidd a meysydd rheoli anodd fel arfarnu perfformiad a sgiliau hyfforddi. Cewch arbed 10% wrth gofrestru ar gyfer 2 gwrs ar yr un pryd (gweler y categorïau dan sylw).

Hyfforddiant yn y Gweithle
i Reolwyr
23 Medi 2019
£198

Mae'r rheolwr heddiw yn gwybod bod hyfforddi yn elfen allweddol o ddatblygu tîm. Mae rheoli pobl yn effeithiol yn golygu mwy na dweud wrth bobl beth i'w wneud.

Mae arweinwyr effeithiol yn deall sut mae hyfforddi a datblygu yn cyfrannu at lwyddiant busnes trwy her adeiladol.

Ar gyfer pwy?

Y dewis perffaith os ydych yn rheolwr llinell sy'n dymuno datblygu eich arddull hyfforddi a herio unigolion o fewn eich sefydliad i wireddu eu potensial llawn.

Mae hefyd yn gyfle da i loywi sgiliau os nad ydych wedi hyfforddi yn y gweithle ers cryn amser.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Datblygu a herio pobl i wella cynhyrchiant a'u cymell i gyrraedd eu potensial llawn
- Myfyrion ar ymddygiad a arsylwyd yn y gweithle i wella effeithiolrwydd tîm
- Defnyddio strategaethau emosiynol a deallus i optimeiddio dangosyddion perfformiad busnes
- Gweithredu'r ddamcaniaeth a darganfod eich arddull hyfforddi
- Y berthynas rhwng annog, mentora a hyfforddi – i helpu i ddarganfod eich arddull benodedig.

UNRHYW GWESTIYNAU?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyrsiau DPP byr sydd ar gael drwy Brifysgol Caerdydd, neu os hoffech archwilio'r opsiwn o greu cwrs tebyg ar gyfer eich sefydliad, cysylltwch â ni ar bob cyfrif a byddwn yn hapus i siarad â chi ynglŷn â'r holl opsiynau.



Rheoli Perfformiad ar
gyfer Canlyniadau
7 Tachwedd 2019
£198

Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn ennyn ymgysylltiad cyflogaion i ddangos ymdrech dewisol tuag at eu rheolwr – sy'n helpu cynhyrchiant, yn meithrin cymhelliant, yn cadw staff a pherthynas waith dda.

Bydd y cwrs yn cynnig technegau ymarferol i helpu cyfranogwyr i fabwysiadu ymagwedd ddeublyg: datblygu eich gweithwyr trwy arsylwi cadarn ac adborth treiddgar – sydd wedyn yn golygu bod eich ymdrechion i gyfathrebu a hyfforddi'n barhaus yn cyflawni canlyniadau dymunol. Mae'r dull hwn yn ddigon hyblyg ar gyfer pob proses rheoli ac arfarnu perfformiad gan fod y ffocws ar ddatblygu eich sgiliau a'ch dull o fesur a monitro staff.

Ar gyfer pwy?

Rheolwyr ac arweinwyr tîm, os ydynt yn newydd i swydd rheoli llinell, neu'n brofiadol a hoffent adnewyddu a gwella eu sgiliau.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sgiliau a thechnegau i helpu i wella perfformiad y staff
- Rôl rheoli perfformiad o fewn datblygiad staff
- Sut i ddatblygu staff, gosod cynlluniau perfformiad clir â ffocws
- Cael sgrysiadau adeiladol er mwyn delio'n effeithiol â than-berfformwyr.



“Rwyf wrth fy modd â'm mhrofiad ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd y bwyd yn flasus iawn, a'r gwasanaeth i gwsmeriaid yn rhagorol...teimlais eich bod wedi mynd yr ail filltir!”

Marsine Kousarieh
Linc Cymru
Cymdeithas Tai

Cewch fanylion llawn y cwrs ar ein gwefan: cardiff.ac.uk/cy/professional-development

Hyfforddi'r Hyfforddwr
22-23 Hydref 2019
£398

Cwrs
deuddydd

Eich trochi'ch hun yn ddau ddiwrnod o ddysgu i sefydlu sylfeini cynllunio, paratoi, datblygu a darparu hyfforddiant seiliedig ar waith effeithiol. Gyda chyllidebau'n cael eu gwasgu, mae sefydliadau'n cydnabod yn fwyfwy y cyfle i fanteisio ar eu talent fewnol a chynnig cyfoethogi swyddi i'w perfformwyr gorau.

Efallai nad ydych chi wedi ystyried hyfforddi pobl eraill fel rhan greiddiol o'ch disgrifiad swydd ond mae'n sgîl hynod werthadwy a pherthnasol ac yn rhoi llawer o foddhad. Cyfle datblygu lle rydych chi a'ch cyflogwr ar eu hennill.

Ar gyfer pwy?

Unrhyw gyflogaion ar unrhyw lefel (arweinydd tîm presennol neu bosibl, goruchwylydd, rheolwr) sy'n gallu ychwanegu gwerth i'r sefydliad drwy roi eu sgiliau, eu wybodaeth a'u harbenigedd i'w cydweithwyr.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sut i nodi anghenion dysgu (o'u cymharu â phethau rydych eisiau) cynllunio, datblygu a chyflwyno ymyriadau dysgu effeithiol
- Rhoi darn byr o hyfforddiant ar waith, ar ôl ei ddatblygu o'r dechrau – hyd at ei gyflawni
- Rhoi a derbyn adborth adeiladol i wella dysgu unigol a grŵp – bydd cyfranogwyr yn cael y cyfle i gael 'tro cyn gwneud' gyda'u deunydd hyfforddiant penodol eu hunain.

Hunandrefnu Effeithiol
22 Tachwedd 2019
£225

Newydd ar gyfer
2019

Y dyddiau hyn, rhaid inni i gyd ymdrin â tswnami o wybodaeth a'r sianeli lawer sy'n rhoi'r wybodaeth honno inni; e-bost, testun, Twitter, LinkedIn, Cylchlythyrau ac ati. Yn aml, byddwn yn delio gyda nifer mawr o negeseuon sy'n mynd â'n sylw i bob man ac yn achosi inni esgeuluso'r hyn sy'n wirioneddol bwysig. Felly, mae angen technegau effeithlon ac effeithiol i helpu i gadw y broblem o dan reolaeth. Mae'r gweithdy undydd hwn yn ymdrin â'r angen hwnnw, gan ddarparu offer a thechnegau ymarferol y gellir eu defnyddio ar unwaith.

Ar gyfer pwy?

Pobl o bob lefel statws a phrofiad, waeth beth fo rôl y swydd. Y rheini sydd am gael offer a thechnegau ymarferol 'heb fod yn gimigaidd' i wella eu cynhyrchiant, eu heffeithiolrwydd a'u boddhad mewn swydd. Mae pawb sy'n teimlo bod eu her ddyddiol yn debyg i ddringo i fyny mynydd.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Offer a thechnegau ymarferol newydd ar gyfer defnydd personol ac i'w defnyddio fel tîm
- Sut i ddewis y rhai mwyaf addas ar eich cyfer chi a'u cymhwyso yn y gwaith neu yn y cartref, mewn unrhyw gyd-destun
- Sut i reoli straen a mapio cyfrifoldebau tîm.



Mae ein cyfres o gyrsiau rheoli prosiectau yn addas ar gyfer y rhai hynny sydd am ddatblygu eu sgiliau rheoli prosiectau ymarferol, yn ogystal ag ymarferwyr mwy profiadol sy'n chwilio am gymhwyster ffurfiol.

Mae pob cwrs yn cynnwys aelodaeth rad ac am ddim i Rwydwaith Rheoli Prosiectau Prifysgol Caerdydd i Gynfyfyrwyr, a sefydlwyd i helpu'r rhai hynny sy'n gweithio yn y maes i rwydweithio, rhannu arfer gorau a chael y wybodaeth ddiweddaraf.

Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus
(MSP®)
25-29 Tachwedd 2019
£1,425

Mae Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus (MSP®) yn cynnig ymagwedd sydd wedi'i strwythuro at reoli rhaglenni a fydd yn helpu sefydliadau i gyflawni newid trawsffurfiannol yn llwyddiannus. Mae'r cwrs 5 diwrnod hwn yn cynnig dealltwriaeth gyflawn ac ymarferol o fframwaith MSP® ac mae'n eich paratoi ar gyfer arholiadau Sylfaen ac Ymarferydd, sy'n cael eu sefyll yn rhan o'r cwrs.

- Ar gyfer gweithwyr proffesiynol prysur sydd eisiau cyfuno astudio e-ddysgu preifat gyda rhywfaint o addysgu wyneb yn wyneb
- Cyfarwyddwyr Prosiectau a Rhaglenni
- Rheolwyr Newid, Strategwyr Busnes ac Ymgynghorwyr
- Pobl sy'n rheoli nifer o brosiectau cysylltiedig.
- Arweinwyr rhaglenni
- Staff swyddfa rhaglen
- Staff gweithrediadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni newid
- Dylai fod gan bawb sy'n cymryd rhan rywffaint o brofiad o arwain neu reoli newid.

- Dealltwriaeth o fframwaith MSP®, sy'n seiliedig ar dri chysyniad craidd – Egwyddorion, Llywodraethu a Llif Trawsnewidiol
- Nodi gweledigaeth ar gyfer rhaglenn
- Sut i ddylunio, cynllunio a rheoli rhaglenni gan ddefnyddio elfennau priodol MSP®
- Sefyll yr arholiadau MSP® Sylfaen ac Ymarferdd.

MSP® cwrs hyfforddiant
dysgu cyfunol
9-10 Medi 2019 (diwrnodau
wyneb yn wyneb)
£1.295

Mae'r cwrs dysgu cyfunol hwn yn cynnig dealltwriaeth gyflawn ac ymarferol o fframwaith MSP® ac mae'n eich paratoi ar gyfer arholiadau Sylfaen ac Ymarferydd, sy'n cael eu sefyll yn rhan o'r cwrs.

Gweler y manylion yn y blwch Aur (isod).

Mae Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus (MSP®) yn cynnig ymagwedd sydd wedi'i strwythuro at reoli rhaglenni a fydd yn helpu sefydliadau i gyflawni newid trawsffurfiannol yn llwyddiannus.

Gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno astudio'n hyblyg. Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan mewn rolau Rheoli Prosiect ac yn dymuno ennill cymhwyster, er enghraifft:

- Arweinydd rhaglen
- Staff swyddfa rhaglen
- Rheolwyr Newid Busnes
- Ymgynghorwyr busnes
- Staff gweithrediadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni newid.

- Dealltwriaeth o fframwaith MSP®, sy'n seiliedig ar dair cysyniad craidd – Egwyddorion, Llywodraethu a Llif Trawsnewidiol
- Nodi gweledigaeth ar gyfer rhaglen
- Sut i ddylunio, cynllunio a rheoli rhaglenni gan ddefnyddio elfennau priodol MSP®.

Cwrs hyfforddiant dysgu
cyfunol PRINCE2®
8-9 Gorffennaf 2019 (diwrnodau
wyneb yn wyneb)
£1,295

Mae'r cwrs dysgu cyfunol hwn yn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr ac ymarferol o ddull PRINCE2® ac mae'n eich paratoi ar gyfer arholiadau Sylfaen ac Ymarferydd, sy'n cael eu sefyll yn rhan o'r cwrs.

Gweler y manylion yn y blwch Aur (isod).

PRINCE2® (PROjects IN Controlled Environments) yw'r safon ryngwladol ar gyfer dulliau rheoli prosiectau ac mae'n cynnig fframwaith i gwmpasu amrywiaeth eang o ddisgyblaethau a gweithgareddau sydd eu hangen o fewn prosiect. Mae'r dulliau yn ymgorffori blynyddoedd lawer o arferion gorau ac yn cynnig ymagwedd hyblyg ac addasadwy i weddu pob prosiect.

- Gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno astudio'n hyblyg
- Rheolwyr prosiect sy'n dymuno datblygu eu sgiliau a dysgu am reoli prosiectau drwy ddefnyddio dull PRINCE2®
- Gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno dysgu am reoli prosiect a dull PRINCE2® yn benodol
- Unrhyw un sydd angen gwybod sut i redeg prosiectau vn ffw effeithiol.

- Cyflwyniad i ddull PRINCE2®, gan gynnwys ei Egyddorion, Themâu a Phrosesau
- Sut i gymhwyso dull PRINCE2® i sefyllfaoedd gwaith bywyd go iawn
- Sut i deilwra pob elfen o ddull PRINCE2® i ddiwallu anghenion y prosiect a'r sefydliad.

Cwrs hyfforddiant AgilePM®
Sylfaen ac Ymarferydd
7-11 Hydref 2019
£1,345

Er mwyn cyflawni prosiectau drwy ddull
Ystywyth ma e angen i'r Rheolwr Prosiect a
phawb sy'n cymryd rhan feddwl a gweithio
mewn ffordd wahanol.

Mae'r cwrs 5 diwrnod hwn yn cynnig dealltwriaeth gyflawn ac ymarferol o ddull AgilePM® ac mae'n eich paratoi ar gyfer arholiadau Sylfaen ac Ymarferydd, sy'n cael eu sefyll yn rhan o'r cwrs.

Mae'r cwrs yn ddelfrydol i unrhyw staff sy'n rheoli neu'n cymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno prosiect fydd yn cael ei gynnal drwy ddull Ystwyth, er enghraifft:

- Noddwyr Prosiect neu Fusnes
- Rheolwyr Prosiect a'u timau
- Rheolwyr Newid Busnes
- Aelodau technegol o'r tîm sy'n cymryd rhan yn y gwaith o lunio atebion, datblygu a phrofi
- Staff swyddfa'r Rhaglen a Phrosiect
- Dadansoddwyr Busnes.

- Dealltwriaeth o'r rolau sydd ynghlwm wrth gyflawni prosiect Ystwyth
- Dealltwriaeth o drefn gweithgareddau mewn prosiect Ystwyth
- Dealltwriaeth a phrofiad o ddefnyddio offer a thechnegau priodol ar gyfer prosiectau Ystwyth
- Dealltwriaeth o fesurau rheoli effeithiol mewn prosiectau Ystwyth.

Rheoli Prosiectau
30 Medi - 1 Hydref 2019
£398

Wrth i reoli prosiectau ddod yn fwy cyffredin ym mhob agwedd ar fywyd, mae'r cwrs hwn yn gwneud y ddisgyblaeth hollbwsig hon yn hygyrch yn gyffredinol i gynrychiolwyr sydd angen deall a meddu ar brofiad ymarferol o reoli prosiectau heb angen achriediad proffesiynol.

Drwy gyfrwng gweithdy hynod ymarferol, byddwch yn gadael gan deimlo'n hyderus yn eich gallu i reoli prosiectau, yn ogystal â gwerthfawrogi rhai materion mewn perthynas â rheoli newid ehangach ac ymgysylltu â rhan-ddeiliaid. Ar sail dull rheoli PRINCE2®, mae'r gweithdy yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer achos busnes a chynlluniau wedi'u strwythuro'n dda, ond mae hefyd yn cydnabod nad yw pethau'n digwydd yn unol â'r cynlluniau hyn bob tro.

Mae hwn wedi'i gynllunio'n bennaf fel
cwrw rhagarweiniol ar gyfer unrhyw un
sydd angen deall rheoli prosiectau a chael
profiad ymarferol ohono.

- Sut mae rhaglen a'i phrosiectau cyfansoddol yn gweithredu
- Sut i gyflawni buddion drwy newidiadau cam-wrth-gam er mwyn manteisio arnynt cyn gynted â phosib
- Sut i ddiffinio a mesur buddion a phwy sy'n atebol ac yn gyfrifol am eu cyflawni
- Gwybodaeth a dulliau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cynllunio a darparu newid i 'fuses fel arfer'.



Mae'n rhad ac am ddim ac ar gyfer unrhyw un sydd wedi dod i'n cyrsiau rheoli prosiectau.

Mae ein rhwydwaith yn cynnig cyfle unigryw i gynrychiolwyr sy'n cymryd rhan mewn Cyrsiau Rheoli Prosiectau Prifysgol Caerdydd rannu profiadau a syniadau gydag eraill sy'n gweithio ym maes rheoli prosiectau a rhaglenni.

- Mynediad â blaenoriaeth at ddigwyddiadau a gweithdai rheoli prosiectau **RHAD AC AM DDIM**
- Anogaeth a gostyngiadau **UNIGRYW**
- Gwahoddiadau at ddigwyddiadau Prifysgol Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth am y rhwydwaith i gynfyfyrwyr, cysylltwch â Kate Sunderland, Rheolwr Datblygu Busnes, dros y ffôn neu drwy ebost (**isod**).

Cyflwynir yr holl gyrsiau achrededig gan ein partneriaid Aspire Europe Ltd, sef Sefydliad Hyfforddiant Aspire Europe o The APM Group Ltd. Mae PRINCE2® a MSP® yn nodau masnach cofrestredig i AXELOS Ltd. Cedwir pob hawl. Mae AgilePM® yn nod masnach cofrestredig i Agile Business Consortium Limited. Cedwir pob hawl.

Addysg Weithredol

Rydym yn cynnig nifer o raglenni cyffrous a fydd yn eich galluogi i gael safbwyntiau newydd ar amrywiaeth o faterion busnes a rheoli. Mae ein rhaglenni agored yn berffaith ar gyfer unigolion sydd am rwydweithio a rhannu gwybodaeth gydag eraill o sectorau a diwydiannau gwahanol.

GWYBODAETH AM ADDYSG WEITHREDOL

Mae ein darpariaeth Addysg Weithredol yn troi ymchwil academaidd sy'n arwain y byd yn arferion busnes perthnasol, gweithredol ac effeithiol ar gyfer unigolion a sefydliadau.

Mae ein rhaglenni'n canolbwyntio ar weithredu – troi'r cysyniadau a'r syniadau'n gamau gweithredu penodol sy'n gwella perfformiad unigolion a sefydliadau.

Bydd astudio gyda ni yn rhoi mynediad atoch i ymchwilwyr sy'n gweithio ar derfynau eithaf y wybodaeth yn eu disgyblaethau.

A ninnau'n sefydliad a arweinir gan ymchwil, gallwch fod yn sicr bod ein haddysgu yn deillio o'r syniadau mwyaf diweddar. Addysgir trwy amrywiaeth o ddulliau gwahanol, astudiaethau achos, efelychiadau a chymwysiadau ymarferol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol.

Rhaglen Arweinyddiaeth a Gweinyddu Busnes (LBA)
Ebrill – Tachwedd 2020 (dyddiadau i'w cadarnhau)

Mae'r rhaglen Arweinyddiaeth a Gweinyddu Busnes (LBA) wedi'i dylunio i gynniw cipolwg penodol yng nghyd-destun byd gwaith ar ein MBA i Weithredwyr. Bydd modiwlau'n gyfan gwbl gymwys ar gyfer gweithle'r rheini sy'n cymryd rhan, fel eu bod yn gallu rhoi'r hyn a ddysgwyr ganddynt ar waith yn syth ar ôl sesiwn. Caiff llawer o enghreifftiau eu rhoi sy'n deillio o ystod o sectorau gwahanol, er mwyn dangos y pwyntiau dysgu allweddol.

- 7 pwnc:**
- Arweinyddiaeth a
 - Datblygiad Proffesiynol
 - Rheoli Gweithrediadau
 - Timau sy'n Rhagori
 - Arweiniad Digidol
 - Adnoddau Dynol a Rheoli Perfformiad
 - Arian ar gyfer Rheolwyr nad ydynt yn rheoli arian
 - Rheoli Strategol.

Lean Six Sigma
Set 1: 12-13 Medi /9-10 Hyd 2019
Set 2: Gwanwyn 2020 (dyddiadau i'w cadarnhau)

Mae 'Six Sigma' yn ymagwedd sydd wedi hen ennill ei phlwyf sy'n ceisio nodi a dileu diffygion, camgymeriadau neu fethiannau mewn prosesau neu systemau busnes.

Mae hyfforddiant pum diwrnod Gwregys Gwyrdd Lean Six Sigma yn rhaglen hynod o ymarferol sy'n galluogi'r rheini sy'n bresennol i ddechrau cymhwyso offer a thechnegau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau busnes, ni waeth beth yw math neu faint y diwydiant.

Bydd bod yn bresennol ar ddau ddiwrnod cyntaf y rhaglen yn galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i gael achrediad gwregys melyn, a bydd cwblhau'r rhaglen 5 diwrnod yn eich caniatáu i fynd ymlaen i wregys gwyrdd.



SESIWN HYSBYSU DROS FRECWAST
Mae'r gyfres Hysbysu dros Frecwast – Addysg Weithredol yn un ffordd rydym yn ymgysylltu â'n cymuned fusnes lleol.

Mae'r gyfres hon yn cynnig y cyfle i ymarferwyr busnes, gwneuthurwyr polisi, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill glywed am waith ymchwil diweddaraf yr Ysgol a gweithio gyda'n partneriaid.

Ymhlith y pynciau diweddar; gwahaniaethau cyflog rhwng dynion a menywod, adeiladu arloesedd mewn sefydliadau, temtio talent mewn rheoli busnes a gwybodaeth ac atebolrwydd sefydliadol.

I gael gwybodaeth am Sesiynau Hysbysu Dros Frecwast sydd ar y gweill, anfonwch ebost at ein tîm: executive-education@caerdydd.ac.uk

Cyflwyniad i Arferion Di-wastraff (Lean) a Rhagoriaeth Weithredol
Gwanwyn 2020 (dyddiadau i'w cadarnhau)

Yr holl elw er budd Llamau

Mae ein Cyfarwyddwr Gweithredol Addysg Weithredol, Sarah Lethbridge, yn cynnig diwrnod o hyfforddiant mewn arferion di-wastraff a Rhagoriaeth Weithredol ar gyfer Llamau, elusen â'r diben o ddileu digartrefedd pobl ifanc a menywod sy'n agored i niwed.

Bydd y sesiwn hon yn archwilio egwyddorion craidd arferion di-wastraff, Gwella'n Barhaus a Rhagoriaeth Weithredol, ac yn cyflwyno ychydig o offer allweddol er mwyn cyflawni newid cadarnhaol.

Rhaglen Arbenigol Arferion Di-wastraff
Haf 2019 (dyddiadau i'w cadarnhau)

Diben y rhaglen 5 diwrnod hon yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i'r rhai sy'n cyflwyno newidiadau, rheolwyr ac arweinwyr arwain trawsnewidiadau llwyddiannus, yn enwedig y rhai mewn sefydliadau gwasanaethau.

Bydd yn rhoi cipolwg newydd i'r rheini sydd eisoes yn meddu ar ddealltwriaeth dda o arferion di-wastraff, yn ogystal â'r rheini sydd â phrofiad o gymhwyso arferion diwastraff mewn cyd-destun gweithgynhyrchu ac am ddeall y cyfraniadau diweddaraf a ganfuwyd ym myd gwasanaeth.

RHAGLENNI ADDYSG WEITHREDOL PWRPASOL

Mae gennym gryn dipyn o brofiad o ddylunio a chyflwyno addysg a rhaglenni hyfforddiant pwrpasol ar gyfer sefydliadau, yn ogystal â hanes hir o ragoriaeth.

Rydym yn cymryd yr amser i ddeall eich anghenion dysgu a dod i adnabod eich sefydliad a'i ddiwylliant er mwyn teilwra cyrsiau'n arbennig at ddiwallu eich anghenion.

Os hoffech drafod cyfleoedd posibl, cysylltwch â Sarah Lethbridge:

LethbridgeSL@caerdydd.ac.uk

RHAGLENNI WEDI'U TEILWRA Y GELLIR EU CYFLAWNI'N 'FEWNOL':

Prosiect Arloesedd Caerdydd
Bydd yr Athro Robert Morgan, Athro Strategaeth ac Arloesol Syr Julian Hodge yn gweithio gyda sefydliadau i asesu eu gallu arloesedd presennol arloesedd, a datblygu gallu arloesedd cyfranogwyr er mwyn meithrin a gwella eu potensial o ran arloesedd.

Lean Six Sigma
Mae'r hyfforddiant pum niwrnod Gwregys Gwyrdd a Melyn Lean Six Sigma hwn yn rhaglen ymarferol sy'n eich galluogi i ddechrau cymhwyso offer a thechnegau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau busnes, ni waeth beth yw math neu faint y diwydiant.

Syniadau arloesol i wella'r gwasanaeth
Rydym yn cynnig safbwynt unigryw am wella gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion, diolch i dreftadaeth o fri'r Ysgol o ran gwella. Mae'r cwrs hwn yn trafod gwahanol fathau o ddulliau arloesi a gwella gwasanaethau. Mae'n eich cynorthwyo i ddeall ac arfer ystod o dechnegau, wrth ystyried natur ymarferol sut i ddefnyddio'r tactegau hyn yn eich sefydliad gan fynd â holl fryd a meddyliau pobl.

ANFONWCH Y WYBODAETH
DDIWEDDARAF ATAF

Cysylltwch ag Addysg Weithredol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau ac i gael gwybod mwy am y cyrsiau hyn:

executive-education@caerdydd.ac.uk
(029) 2087 5096



CYRSIAU BYR PWRPASOL
Mae Ysgol Busnes Caerdydd yn Ysgol fawr iawn sydd ag arbenigwyr academaidd yn y rhan fwyaf o ddisgyblaethau busnes.

Felly cysylltwch ag unrhyw ofynion cwrs byr a allai fod gennych, a gwnawn ein gorau glas i helpu.



Meddygaeth

Mae'r Ysgol Meddygaeth yn cynhyrchu'r safonau uchaf o ymchwil, addysg a hyfforddiant. Ein nod yw creu a rhannu gwybodaeth ac addysgu a hyfforddi unigolion i ddod yn glinigwyr, gwyddonwyr, athrawon ac arloeswyr rhagorol. Rydym yn cynnig ystod o gyrsiau DPP byr a modiwlau unigol lle gellir ennill credydau, a all fod yn hyblyg ac yn gost-effeithiol i'r gweithiwr meddygol proffesiynol prysur.

DECIPHer

Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer). Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd UKCRC yw DECIPHer.

Diwrnod Astudio Diweddariadau Hanfodol mewn Therapiwteg Hydref 2019 £125

Mae opsiwn gofal preswyl ar gael

Y tîm sy'n gyfrifol am MSc/PgDip/PgCert mewn therapiwteg sy'n cyflwyno'r diwrnod.

Caiff y digwyddiad blynyddol hwn ei werthuso'n gyson hyd at lefel uchel iawn, a'i nod yw cynnig fforwm i ymarferwyr ddiweddar eu gwybodaeth am bynciau allweddol mewn gofal sylfaenol. Cyflawnir hyn drwy gyfrwng cyfres o ddarlithoedd byr, llawn gwybodaeth sy'n cynnwys astudiaethau achos a'r cyfle i drafod â chydweithwyr a chymheiriaid.

Darperir copiâu o holl ddeunydd y rhaglen i fynd gyda chi ar ddiwedd y diwrnod er mwyn helpu eich dysgu. Bydd hefyd ddigon o gyfle i rwydweithio a chael trafodaeth ryngbroffesiynol.

Ar gyfer pwy?

Unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol (e.e. meddyg, nyrs, fferylltydd, parafeddyg) sydd â diddordeb mewn rheoli cyflyrau cyffredin ar sail tystiolaeth.

Diben y diwrnod yw darparu datblygiad proffesiynol parhaus ac ymarferol er budd ymarfer a chleifion.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r meysydd pwnc yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am:

- Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint – tirwedd sy'n newid yn gyson
- Gwella techneg anadlydd – manteisio'n llawn ar gyffuriau drwy anadlydd
- Achosion anodd o bwysau gwaed uchel – beth ddylwn ei wneud nesaf?
- Meddyginiaethau lluosog mewn pobl hŷn – achosion ar lawr gwlad
- Gofal tîm yw gofal iechyd – ymgorffori gwydnwch yn y model gofal iechyd.

Cyflwyniad i Ddermoscopi Mawrth 2019 Medi 2019 £995

Cynhelir y cyrsiau ar-lein am 12 wythnos

Mae dermoscopi yn offeryn diagnostig an-fewnwrthiol a ddefnyddir yn eang i helpu gyda diagnosis o glwyfau'r croen a phrofwyd ei fod yn cynyddu cywirdeb diagnosis melanoma.

Ar gyfer pwy?

Bwriedir y cwrs hwn yn benodol i feddygon sy'n ymwneud â gofalu am gleifion dermatoleg sydd â chlwyfau'r croen, ac sydd â diddordeb mewn rheoli clwyfau croen diniwed a malaen, neu sy'n dymuno dysgu am ddermoscopi i wella eu sgiliau diagnosis melanoma. Mae'r cwrs hefyd ar gyfer nyrsys arbenigol sy'n gweithio mewn Clinigau Canser y Croen, yn amodol ar gymhwyster priodol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Nod y rhaglen hon yw datblygu'r gallu i ddefnyddio dermatosgop i wneud y canlynol:

- Gwahaniaethu rhwng clwyfau croen melanositig a rhai anfelanositig
- Gwahaniaethu rhwng clwyfau croen malaen a rhai diniwed
- Cynorthwyo gyda diagnosis cynnar o felanoma
- Cynorthwyo gyda phenderfyniadau rheoli yn ymwneud â chlwyfau croen â phigment
- Cynorthwyo gyda diagnosis o rai clwyfau croen anfelanositig.

Meini prawf cymhwysedd

Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf canlynol i gael eu hystyried yn gymwys ar gyfer y cwrs hwn:

- Gradd feddygol
- Gweld cleifion sydd â chlwyfau croen yn rheolaidd
- Gallu rhagorol yn yr iaith Saesneg
- Meddu ar neu fynediad at gyfrifiadur gyda chyswllt gwe cyflymder uchel
- Nid oes angen i chi fod wedi cwblhau cwrs dermatoleg neu ddermoscopi'n flaenorol ond bydd angen peth gwybodaeth am ddermatoleg er mwyn cyfranogi'n effeithiol.

Oncoleg Gymunedol Cysylltwch â ni i gael y dyddiadau Ariennir yn garedig gan Gymorth Cancr Macmillan

Gorau po gyntaf y gwneir diagnosis er mwyn i driniaethau canser fod mor effeithiol â phosibl ac er mwyn cynnig cynifer o opsiynau â phosibl i gleifion. Mae angen nodi cymhlethdodau canser a'r triniaethau ar eu cyfer mewn da bryd er mwyn gwella diogelwch a deilliannau.

Mae'r cwrs yn ymateb i'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth o ganser ymhlith ymarferwyr gofal iechyd cymunedol - adnabod, diagnosis a chyfeirio.

Ar gyfer pwy?

Addas ar gyfer pob ymarferydd gofal iechyd cymunedol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Yn ystod y dydd, bydd cynrychiolwyr yn cael gwybodaeth a sgiliau er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ofal i gleifion - diagnosis, cyfathrebu, rheoli cymunedau a chyfeirio at lwybrau gofal addas i gleifion ar adegau priodol.

EISIAU GWYBOD MWY?

I drafod cyfleoedd DPP pwrpasol posibl ym maes meddygaeth, cysylltwch â Charlotte Stephenson, Rheolwr Datblygu Busnes, dros y ffôn neu drwy ebost (**isod**).



Sgiliau Addysgu Effeithiol (ar gyfer Clinigwyr) 19-20 Medi 2019 £325

Cwrs deuddydd

Cwrs rhyngweithiol ac ymarferol iawn i gyflwyno egwyddorion sylfaenol mewn addysg feddygol i'r rhai sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am addysgu mewn lleoliadau clinigol.

Yr Adran Academaidd ar gyfer Addysg Feddygol Ôl-raddedig, Yr Ysgol Meddygaeth fydd eich hyfforddwyr.

Ar gyfer pwy?

Wedi'i gynllunio ar gyfer Goruchwylwyr Clinigol, Darlithwyr, Hyfforddwyr, Goruchwylwyr Addysgol ac Arweinwyr Cyrsiau sy'n ymwneud ag addysgu ym maes meddygaeth / deintyddiaeth / fferylliaeth / nyrsio neu broffesiwn iechyd arall.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Sgiliau a thechnegau i'ch helpu i wella ac adfywio eich addysgu
- Sut i nodi cyfleoedd dysgu yn y gweithle a strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr
- Egwyddorion ar gyfer llunio deunyddiau addysgol i gefnogi dysgu
- Manteision a chyfyngiadau addysgu mewn grwpiau mawr a bach
- Sut i asesu perfformiad eraill yn ystyrlon a chyflwyno adborth adeiladol.

Gofal Lliniarol Cysylltwch â ni i gael y dyddiadau £200

Cwrs deuddydd

Mae'r tîm cyflwyno MSc/Diploma wedi datblygu'r cwrs DPP wyneb yn wyneb hwn dros ddau ddiwrnod mewn ymateb i forbidrwydd a marwoldeb cynyddol mewn cyflyrau na ellir eu gwella.

Mae'n cynnig sylfaen da mewn meddygaeth a gofal lliniarol, gan gynnwys canser, dementia, cyflyrau resbiradol diwedd oes a chyflyrau cardiaidd diwedd oes.

Ar gyfer pwy?

Mae'r cwrs aml-broffesiynol byr hwn yn addas i'r holl weithwyr iechyd proffesiynol mewn lleoliadau gofal iechyd gan gynnwys meddygon teulu, ymgynghorwyr a nyrsys arbenigol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Cynyddu gwybodaeth a hyder wrth ofalu am gleifion sydd ag anghenion gofal lliniarol. Sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys gweithio gyda theuluoedd cleifion mewn gofal lliniarol. Bydd yr addysgu'n seiliedig ar achosion gyda ffocws clinigol.

Bydd cynrychiolwyr yn elwa o wybodaeth a hyder cynyddol wrth ofalu am gleifion gydag anghenion gofal lliniarol. Bydd adfyfrio ar strategaethau sgiliau cyfathrebu a fframweithiau moesegol sy'n sail i ymarfer yn gwella perfformiad a bydd y sesiwn ar wella elfen o gyflwyno gofal lliniarol o fewn y tîm neu'r lleoliad yn fuddiol i'r gwasanaethau clinigol.

Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth drwy Broses 11 Hydref 2019 £225

Nod y cwrs undydd hwn yw cynnig gwybodaeth dda am theori ac ymarfer gwerthuso ymyriadau cymhleth drwy broses. Mae'r tîm addysgu yn cynnwys awduron o sawl darn empirig a methodolegol o waith sy'n gysylltiedig â gwerthuso drwy broses, gan gynnwys Dr Rhiannon Evans, Dr Britt Hallingberg, Dr G.J. Melendez-Torres a Dr Jeremy Segrott.

Ar gyfer pwy?

Ymchwilwyr, myfyrwyr PhD, ymarferwyr a llunwyr polisi sydd â diddordeb mewn datblygu a gwerthuso ymyriadau cymhleth, yn benodol ar gyfer iechyd y cyhoedd. Ni ragdybir y bydd gennych unrhyw wybodaeth flaenorol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

- Rôl gwerthuso drwy broses wrth deall ymyriadau cymhleth
- Pwysigrwydd damcaniaeth ymyrryd a modelau rhesymeg
- Cywirdeb a gweithredu ymyriadau cymhleth
- Perthnasoedd ac anawsterau gydag adnoddau Canfod cwestiynau a chyfuno dulliau
- Dadansoddi a lledaenu data prosesau.



Arweinir DECIPHer gan yr Athro Simon Murphy o Brifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth strategol â chydweithwyr ym Mhrifysgol Bryste, dan arweiniad yr Athro Rona Campbell a Phrifysgol Abertawe, dan arweiniad yr Athro Ronan Lyons.

Gofal Iechyd

Rydym yn ddeinamig, yn arloesol ac yn flaengar, a chydabyddir ein rhagoriaeth ym meysydd dysgu, addysgu ac ymchwil.

WIMAT

Mae Athrofa Therapiau Lleiaf Ymyrrol Cymru (WIMAT), sydd wedi'i lleoli ym Medicentre Caerdydd, ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru, yn cynnal cyrsiau hyfforddiant amlddisgyblaethol ar draws ystod o arbenigeddau llawfeddygol a meddygol.

Modiwlau a addysgir ar gyrsiau byr ac ar lefel Ôl-raddedig

Ewch i'n gwefan i gael manylion

Mae cyrsiau DPP ar gael ar gyfer nyrsys cofrestredig, bydwragedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a fyddai'n hoffi parhau â'u haddysg, dysgu sgiliau newydd a gwella eu dysgu.

Mae ein modiwlau unigol a'n cyrsiau byr yn cynnig hyblygrwydd wrth ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau tra'n gweithio.

Rydym yn cynnig modiwlau unigol lefel 6 a lefel 7 a fydd yn cynnig cyfleoedd i chi ddatblygu sgiliau clinigol ynghyd â gallu i ddefnyddio'r ymchwil ddiweddaraf i gefnogi eich ymarfer.

Cewch ragor o wybodaeth ar wefannau ein Hysgol felly os oes gennych ddiddordeb mewn mynd i un o'n digwyddiadau cyhoeddus rhad ac am ddim, digwyddiad undydd pwrpasol neu os ydych yn ystyried cofrestru ar un o'n modiwlau unigol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Modiwlau a addysgir ar gyrsiau byr ac ar lefel Ôl-raddedig

Cewch fanylion ar wimat.org

Wydddech chi?

- WIMAT yw un o ganolfannau hyfforddiant laparosgopig cyntaf y DU ac rydym yn un o'r rhai â'r cyfleusterau gorau. Rydym bellach ymysg y canolfannau hyfforddiant amlddisgyblaethol prysuraf yn y wlad.
- Rydym ar flaen y gad o ran darparu addysg a hyfforddiant llawfeddygol a gastroenterolegol ôl-raddedig ar gyfer hyfforddeion craidd, hyfforddeion arbenigol ac ymgynghorwyr
- Rydym yn cynnal cyrsiau sylfaenol, canolradd ac uwch mewn ystod o arbenigeddau meddygol a llawfeddygol, gan gynnwys Llawfeddygaeth Gardiothorasig, Endosgopi, Clust-Trwyn-Gwddf (ENT), Llawfeddygaeth Gyffredinol, Orthopaedeg, Wroleg a Nyrsio. Mae croeso i gynrychiolwyr o ledled y DU a'r byd.
- Rydym yn cefnogi hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y diwydiant, a hyfforddiant un-i-un ar gyfer ymarfer sgiliau unigol
- Rydym yn cysylltu dysgu proffesiynol â datblygiadau clinigol arloesol.

Mynediad i gyfleusterau, gan gynnwys:

- Sgiliau aml-foddol agored
- 10 gorsaf hyfforddi sy'n llawn cyfarpar, gydag ystod o fodelau efelychu manwl iawn i rai llai manwl
- Mannau hyfforddi didactig hyblyg
- Cyswllt byw â chyfeuster OR1 yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Rydym ni yma i'ch datblygu chi!

Rydym wedi magu amgylchedd hyfforddiant hyblyg, ac mae'r tîm yn barod i ddarparu ar gyfer gofynion hyfforddiant penodol. Gall hefyd helpu i ddatblygu cyrsiau arbenigol a phwrpasol.

Rydym yn aml yn cefnogi digwyddiadau ar gyfer y GIG a'r diwydiant, ac mae hyn yn galluogi arbenigwyr fel maethegwyr, ymarferwyr traceostomi, ffisiolegwyr cardiaidd a phobl eraill i gael hyfforddiant mewn amgylchedd ffafriol.

Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

Mae gennym enw da rhyngwladol am safon ein haddysgu a'n hymchwil ac rydym ar flaen y gad ym maes datblygu sgiliau clinigol. Rydym yn ymdrechu i roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder a allai fod eu hangen ar fferyllwyr presennol ac yn y dyfodol i ffynnu yn eu gyrfaedd dewisol fel bod modd iddynt, yn eu tro, gael effaith gadarnhaol ar fywydau cleifion.

Rhoi Presgripsiynau'n Annibynnol gan Fferyllwyr
Cysylltwch â ni i gael y dyddiadau

Nod cyflwyno presgripsiynau'n annibynnol yw gwneud y defnydd gorau o sgiliau fferyllwyr, a sicrhau y gall cleifion gael gafael ar feddyginiaethau yn gynt ac yn fwy effeithlon.

Ar gyfer pwy?

Mae'r modiwl 40 credyd wedi'i ddylunio i roi'r sgiliau ymgynghori ac asesu cleifion sydd eu hangen ar fferyllwyr i ymarfer fel Rhagnodwyr Annibynnol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y rhaglen yn datblygu eich sgiliau ymgynghori, cyfathrebu, asesu clinigol a gwneud penderfyniadau ymhellach drwy weithdai rhyngweithiol, sefyllfaoedd efelychiadol sy'n seiliedig ar rolau gyda chleifion ac actorion, tiwtorialau, dysgu sy'n seiliedig ar y we ac amser yn arfer o dan oruchwyliaeth ymarferydd meddygol dynodedig.

“Heb os nac oni bai dyma'r cwrs mwyaf pleserus a pherthnasol rwyf wedi'i wneud, ac roedd yn wych gallu rhoi theori ar waith ar unwaith. Mae wedi rhoi sgiliau a gwybodaeth newydd i mi yn ogystal â newid y ffordd rwy'n ymarfer o ddydd i ddydd. Mae wedi ailgychwyn fy mrwdfrydedd dros y proffesiwn ac rwy'n hynod ddiolchgar am hyn.”

Ceri Phillips
Fferylllydd Gwrthficrobaidd

0

Fferylliaeth Glinigol (MSc)
Cysylltwch â ni i gael y dyddiadau

Mae'r MSc mewn Fferylliaeth Glinigol yn integreiddio cwrs academaidd traddodiadol gyda'ch rôl dydd i ddydd fel fferylllydd, gyda'r nod o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth hanfodol i'w defnyddio yn eich gwaith.

Ar gyfer pwy?

Mae hwn yn gwrs rhan-amser dysgu o bell i fferyllwyr cymwysedig, wedi'u cyflogi mewn gofal sylfaenol neu eilaidd. Bydd hyblygrwydd y cwrs yn eich galluogi i'w gwblhau yn eich amser eich hun.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r cwrs yn cynnig amrywiaeth eithriadol o eang o ddysgu drwy brofiad, a byddwch mewn ardal newydd bob tri mis ar gyfer dwy flynedd cyntaf y cwrs. Bydd hyn yn eich galluogi i ennill profiad eang o fferylliaeth o dan arweiniad ymarferydd lleol sydd wedi'i hyfforddi gan y Brifysgol i fod yn diwtor i chi. Mae'r cwrs wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr, ac yn cynnig y cyfle i gymharu arferion a dysgu oddi wrth eich gilydd.

0

Ymchwil Glinigol (MSc)
Cysylltwch â ni i gael y dyddiadau

Os yw eich gwaith yn ymwneud ag ymchwil glinigol, mae'r cwrs hwn wedi'i ddylunio i'ch helpu chi i wella eich gyrfa. Cydnabyddir y rhaglen MSc rhan-amser hon gan y diwydiant fferyllol a'r Gwasanaeth Iechyd fel rhywbeth sydd o ansawdd a gwerth ymarferol rhagorol yn y gweithle ar gyfer gweithwyr proffesiynol ymchwil clinigol.

Ar gyfer pwy?

P'un a ydych yn gweithio yn y diwydiant fferyllol, gwasanaethau iechyd, sefydliadau ymchwil o dan gontract, awdurdodau rheoleiddio, sefydliadau rheoli data ac ysgrifennu meddygol, rydym wedi teilwra'r rhaglen hon i gynnig sylfaen dda mewn sgiliau a gwybodaeth ymchwil glinigol.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r rhaglen yn cynnig trosolwg o brosesau treial clinigol a'r rheoliadau ar gyfer dod ag endid cemegol newydd i mewn, ac mae'n archwilio amrywiaeth eang o feysydd therapiwtig a'u triniaethau mewn perthynas â threialon clinigol, cofrestradau cyffuriau a diogelwch cyffuriau.

Byddwn yn eich cefnogi i symud yn hyderus rhwng y meysydd therapiwtig hyn ac, ym mlwyddyn ysgrifennu'r traethawd hir, byddwn yn eich annog i gynnal prosiectau sydd â gwerth uniongyrchol i'ch cyflogwr. Cynhelir y rhaglen dros dair blynedd calendr o astudio rhan-amser. Cynhelir yr addysgu dros bedair sesiwn dau ddiwrnod o hyd y flwyddyn, a gynhelir yn Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol y Brifysgol.

Cynhelir y sesiynau ar y penwythnos er mwyn peidio ag amharu ar ymrwymadau gwaith presennol myfyrwyr.

0 Cwrs ôl-raddedig

Rhan-amser. Dros 3 blynedd.



RHAGOR O WYBODAETH

cardiff.ac.uk/cy/healthcare-sciences

(chwiliwch am gyrsiau, datblygiad proffesiynol parhaus)

(029) 2068 7689
hcaredeanery@caerdydd.ac.uk

Dilynwch ni ar Twitter:
@CUHealthSci



I gael rhagor o fanylion am WIMAT, ewch i:

wimat.org | (029) 2068 2131 | wimat@caerdydd.ac.uk | @surgerieskills

Modiwlau ôl-raddedig unigol

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig ystod ddethol o fodiwlau addysgir i ôl-raddedigion y gellir eu hastudio yn unigol. Mae llawer o'r modiwlau wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn gweithio'n y maes ac sydd angen cadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol.



Pam dewis modiwl unigol?

Mae ein modiwlau unigol yn rhoi'r hyblygrwydd i chi astudio ar lefel ôl-raddedig wrth reoli eich ymrwymiadau gwaith a bywyd presennol ar hyn o bryd.

Yn hytrach na chofrestru ar gyfer gradd ôl-raddedig lawn (sy'n gyfanswm o 180 o gredydau), gallwch ddewis un modiwl neu ragor (10 – 40 credyd) o'r dewis sydd gennym.

- Mynediad at astudio hyblyg a fforddiadwy mewn prifysgol Grŵp Russell o fri
- Hybu eich gyrfa wrth gydbwyso ymrwymiadau bywyd a gwaith
- Cael blas ar radd ôl-raddedig lawn
- Rhoi'r credydau yr ydych wedi'u casglu tuag at gymhwyster ôl-raddedig*
- Sefydlu cysylltiadau ehangach â Phrifysgol Caerdydd
- Cyflawni gofynion DPP ar gyfer eich aelodaeth â chorff proffesiynol.

*Bydd cymhwysedd ac amserlenni ar gyfer trosglwyddo credydau yn amrywio o un cymhwyster i'r llall.

Sut yr addysgir modiwlau

Byddwch fel arfer yn ymuno â myfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio rhaglen gradd amser llawn, felly byddwch yn ymuno â nhw ar gyfer un modiwl.

Mae'r modiwlau yr ydym yn eu cynnig yn unigol wedi'u dewis yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w haddysgu fel hyn.

Sylwer y gallai fod yn bosibl cymryd modiwlau nad ydynt wedi'u rhestru fel rhan o'r cynnig hwn ar hyn o bryd. Cysylltwch â ni i gael y manylion.

Fel arfer addysgir modiwlau dros un neu ddau semester academaidd (hydref a/neu gwanwyn), gyda darlithoedd yn cael eu cynnal yr un pryd bob wythnos. Fodd bynnag, dylech nodi bod trefniadau'n amrywio o un modiwl i'r llall, felly byddai'n syniad gwirio'r wybodaeth farchnata ar gyfer eich modiwl dewisedig.

Sut i wneud cais

Gallwch gael gwybodaeth lawn am fodiwlau a gwneud cais ar ein gwefan. Byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen gais fer sy'n nodi manylion eich cymwysterau blaenorol a/neu eich profiad.

EISIAU GWYBOD MWY?

Ewch i'n gwefan i gael manylion llawn am bob modiwl ôl-raddedig a addysgir yn unigol a gynigir gan Brifysgol Caerdydd ar hyn o bryd.

Croesawn geisiadau gan y rhai hynny nad oes ganddynt y gofynion mynediad traddodiadol o bosibl, ond sy'n gallu dangos profiad gwaith perthnasol neu ddysgu blaenorol.

Ffoniwch neu anfonwch ebost atom i gael sgwrs anffurfiol.

train@caerdydd.ac.uk

(029) 2087 5274



Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio

Rydym yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau ôl-raddedig unigol sy'n rhoi sylw i faterion polisi ac ymchwil cyfoes. Maent wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes cynllunio, logisteg, trafndiaeth a chynaliadwyedd.

- Trafodaethau ynghylch cynllunio a datblygu Eco-ddinas
- Llywodraethu'r Eco-ddinas
- Proses Ddatblygu
- Datblygu a Chynllunio ynni Adnewyddadwy
- Dadansoddi Trafndiaeth
- Polisiau Trafndiaeth Gynaliadwy

Ysgol Ieithoedd Tramor Modern

Rydym yn cynnig ystod o gyrsgiau cyfieithu byr arbenigol i'r rhai hynny sy'n gweithio fel cyfieithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

- Cyfieithu Ieithoedd Lleiafrifol
- Cyfieithu ac Addasu yn y Celfyddydau
- Cyfieithu a Diwylliannau

Ysgol Busnes Caerdydd

- MBA i Weithredwyr
- MSc Arweinyddiaeth Gyhoeddus:
 - Heriau Cyfoes mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Arweinyddiaeth
 - Arwain Newidiadau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Arwain a Chyflenwi Polisi
 - Arloesedd a Chreadigrwydd mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth

Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn y Gyfraith



UNRHYW GWESTIYNAU?



Ffoniwch neu anfonwch ebost atom am sgwrs anffurfiol. Gallwch hefyd gael gwybodaeth lawn am fodiwlau a gwneud cais ar ein gwefan.

cardiff.ac.uk/cy/professional-development



DAN Y CHWYDDWYDR...

Llywodraethu proses ddatblygu'r eco-ddinas
Semester y Gwanwyn
20 credyd
£930

Diben y modiwl hwn yw darparu sail ddamcaniaethol wybodus ar gyfer dadansoddi natur ac amrywiaeth y ffurfiau o lywodraethu sy'n nodweddu datblygiadau eco a charbon isel ledled y byd.

Mae'n gwneud hynny drwy archwilio ymagweddau cysyniadol at lywodraethu – y rhwyngweithio a geir rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus a dinasyddion.

Cynnwys y modiwl
Bydd y modiwl yn trin a thrafod: safbwyntiau beirniadol ar lywodraethu a datblygiad trefol, a natur llywodraethu mewn gwahanol leoliadau (er enghraifft, Ewrop ac Asia). Dyma fydd yn rhoi'r sylfaen ar gyfer trin a thrafod sut mae dinasyddion, llywodraethau a chyfranogwyr economaidd yn rhwyngweithio er mwyn creu syniadau ar gyfer datblygiad eco-ddinasoedd (e.e. drwy ddefnyddio dangosyddion).

Bydd y modiwl yn mynd ati wedyn i edrych ar sut bydd y cyfranogwyr hyn yn cyflwyno ystod o eco-ddatblygiadau a sut mae bwndeli o dechnolegau (e.e. ar gyfer trafndiaeth) a dyluniadau yn gallu cael eu labelu fel rhai 'eco' a pham mae'r label eco yn bwysig yn y broses ddatblygu.

Daw'r modiwl i ben drwy asesu sut mae modelau gwahanol o lywodraethu yn gallu cyflwyno datblygiadau eco-ddinasoedd yn y ffordd orau.

Sut y bydd y modiwl yn cael ei gyflwyno?
Cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a darllen cyfeiriedig.

Rydym yn cynnig ystod eang o fodiwlau ôl-raddedig a addysgir yn unigol ar draws nifer o Ysgolion yng Ngholeg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd.

Mae'r testunau eang yn cynnwys:

Gwyddorau Gofal Iechyd

Optometreg

Rheoli Poen

Diabetes

Rhoi presgripsiynau'n annibynnol gan fferyllwyr

Ansawdd a Diogelwch

Ymchwil, Ystadegau a Thystiolaeth Ymarfer Geiriau

Iacháu Clwyfau

Geneteg a Genomeg

Uwch-ymarfer Llawfeddygol

Heneiddio, Iechyd a Chlefydau

Iechyd y Cyhoedd

Meddygaeth Newyddenedigol

Addysg Feddygol

Fferyliaeth a Gwyddorau Fferyllol

SUT I WNEUD CAIS

Gallwch gael gwybodaeth lawn am fodiwlau a gwneud cais ar ein gwefan.

Unrhyw gwestiynau? Ffoniwch neu anfonwch ebost atom am sgwrs anffurfiol.

cardiff.ac.uk/cy/professional-development



YN DYCHWELYD CYN HIR!

Cwrs ar-lein AM DDIM:
Diogelwch Dŵr Byd-eang
Wedi'i greu gan y Sefydliad
Ymchwil Dŵr

Cynhelir y cwrs am ddim
hwn am 4 wythnos.

Cysylltwch â Charlotte i
gael rhagor o wybodaeth.

DAN Y CHWYDDWYDR...

**Sgiliau Cwnsela ar gyfer
Genomeg**

Semester y Gwanwyn
10 crdyd
£900 (ar gyfer myfyrwyr Cartref/o'r UE)

Dyma gyflwyniad i sgiliau cwnsela ar gyfer genomeg. Caiiff y myfyrwyr sy'n astudio'r modiwl hwn eu haddysgu i gyfathrebu a rhoi cefnogaeth briodol i unigolion a'u teuluoedd. Datblygir sgiliau cwnsela drwy sesiynau damcaniaethol ac ymarferol. Bydd myfyrwyr yn deall pwysigrwydd hanes teuluol a chyfathrebu canlyniadau pathogenig a/neu ansicr.

**Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwr
allu gwneud y canlynol:**

- Egluro a chyfiawnhau pwysigrwydd caniatâd gwybodus ym maes meddygaeth genomig yn gyffredinol ac yn rhan o brosiect 100,000 o Genomau
- Deall gwahanol ddibenion profion genomig mewn cleifion sydd â chlefydau etifeddol prin, canser a chlefydau heintus
- Egluro canlyniadau genomig o ran rhagfynegi'r diagnosis a'i ansicrwydd
- Magu dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi unigolion sydd â chanlyniadau genomig sy'n effeithio ar eu rhagduddiadau o ran gofal i afiechydon
- Trin a thrafod goblygiadau canlyniadau profion genomig i

gleifion a'u teulu ehangach gan gynnwys canfyddiadau achlysurol

- Dadansoddi a thrafod y sgiliau cyfathrebu a cwnsela sydd eu hangen i ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â chleifion mewn modd trugarog
- Dangos dealltwriaeth feirniadol o'r llwybrau sgrinio a ddefnyddir i brofi am anhwylderau etifeddol a chaffaeledig
- Dangos dealltwriaeth ddofn o'r materion moesegol, cyfreithiol a chymdeithasol ynghylch profi genynnol a dilyniannu genomau cyfan.

**EFALLAI Y BYDDAI'R CANLYNOL
HEFYD O DDIDDORDEB I CHI..**

- Sgiliau Cwnsela mewn Gofal Iechyd Geneteg
- Gwyddor Geneteg i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol
- Sgiliau Ymarferol mewn Gofal Iechyd Geneteg
- Cyflwyniad i Gwnsela Geneteg a Genomig
- Cyflwyniad i Eneteg, Genomeg, Gwyddoniaeth Foleciwlaidd a Biowybodeg
- Geneteg Gynhwysol a Biowybodeg ym maes Gofal Clinigol.

Rydym yn cynnig cyfres amrywiol o fodiwlau ôl-raddedig a addysgir yn unigol ar draws nifer o Ysgolion yng Ngholeg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg.

Ysgol Peirianeg

Trafodaethau ynghylch cynllunio a datblygu Eco-ddinas
Llywodraethu'r Eco-ddinas
Proses Ddatblygu
Datblygu a Chynllunio ynni Adnewyddadwy
Dadansoddi Trafnidiaeth
Systemau Bywyd Cynaliadwy
Polisiâu Trafnidiaeth Gynaliadwy

Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth

Creu Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Cysyniadau a Theori Ffotoneg
Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Cymhwyso Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
Cylchedau Ffotonig Integredig Penodol

DAN Y CHWYDDWYDR...

Adeiladau Carbon Isel

Semester y Gwanwyn
10 credyd
£520 (ar gyfer myfyrwyr cartref/o'r UE)

Mae'r modiwl hwn yn defnyddio dull cyfannol o ran defnydd adeilad o ynni. Rydym yn gweithio gyda nodau o ran dylunio adeiladau, megis safonau dim carbon, a ffyrdd o wrthbwysu'r defnydd o ynni gyda thechnolegau adnewyddadwy. Rydym yn cyflwyno technegau ar gyfer asesu ôl-troed carbon a pherfformiad yr adeilad gan ddefnyddio meincnodau.

Bydd y sgiliau ymarferol a ddatblygir yn y modiwl yn cynnwys y gallu i werthuso pa mor dda y mae adeilad yn cyflawni dyluniad carbon isel, ac asesu effaith opsiynau gwasanaethau adeiladau amrywiol ar berfformiad adeilad.

Ysgol Cemeg

Cynigir modiwlau yn y meysydd
pwnc canlynol:

Biocatalysis
Catalysis Heterogenaidd
Catalysis Heterogenaidd Diwydiannol
Catalysis Unffurf
Dylunio Catalyst
Electrocatalysis
Cemeg Bioinorganig
Modelu Moleciwlaidd
Datblygu Cyffuriau
Darganfod Cyffuriau
Cemeg Feddyginiaethol
Biosynthesis
Dadansoddi Restrosynthetig

Ysgol Pensaerniaeth Cymru

Mae'n bleser gennym gynnig detholiad o fodiwlau o'r MSc mewn Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol:

Y Ddaear a Chymdeithas
Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig
Adeiladau Carbon Isel

**Ar ôl cwblhau'r modiwl, dylai myfyrwr
allu gwneud y canlynol:**

- Esbonio sut mae adeiladau'n defnyddio ynni, gofynion a llwythi adeiladau ac effaith deiliadaeth ar y defnydd o ynni
- Esbonio'r defnydd o dechnolegau adnewyddadwy a thechnolegau oeri ynni isel mewn adeiladau
- Dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r cysyniad o ynni ymgorfforedig
- Dangos dealltwriaeth o ddulliau asesu ar gyfer dyluniad cynaliadwy
- Gwerthuso pa mor dda mae adeilad yn cyflawni dyluniad carbon isel
- Asesu effaith opsiynau gwasanaethau adeiladu amrywiol ar broblem dylunio adeiladau.

Sut y bydd y modiwl yn cael ei gyflwyno?

- Darlithoedd
- Tasgau byr
- Gweithdai
- Defnyddio dulliau modelu meddalwedd.

MWYNAU A MWYNGLODDIO

SAFLE **43** AR Y RHESTR O'R
50 GORAU YN Y BYD!*

AR Y GWEILL!

Cwrs ar-lein AM DDIM:
**Daeareg strwythurol
ar gyfer Archwilio a
Mwyngloddio** (4 wythnos)

Cysylltwch â Kate i gael
rhagor o wybodaeth.

**PENSAERNIAETH/
AMGYLCHEDD ADEILEDIG**
SAFLE **37** AR Y RHESTR O'R
50 GORAU YN Y BYD!*

SUT I WNEUD CAIS

Gallwch gael gwybodaeth lawn am fodiwlau a gwneud cais ar ein gwefan.

Unrhyw gwestiynau? Ffoniwch neu anfonwch ebost atom am sgwrs anffurfiol.

cardiff.ac.uk/cy/professional-development



* Cyfeirnod: Rhestr QS
o Brifysgolion Gorau'r Byd yn ôl Pwnc 2019.

I drafod cyfleoedd datblygiad
proffesiynol ar gyfer eich
busnes, cysylltwch â'r tîm yn
Uned DPP Prifysgol Caerdydd.

Yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae'n anochel y bydd rhai newidiadau'n digwydd rhwng cyhoeddi'r llyfryn hwn a'r flwyddyn academaidd y mae'r cwrs/modiwl Datblygu Proffesiynol Parhaus yn ymwneud â hi. Dylech fynd, felly, i'n gwefan cardiff.ac.uk/cy/professional-development i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Awgrymiadau ynghylch gwella

Rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, os teimlwch fod unrhyw wybodaeth yn y llyfryn yn gamarweiniol, cysylltwch: Clare Sinclair, Pennaeth yr Uned DPP, drwy'r cyfeiriad isod.

Cynaliadwyedd

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur a gafwyd o ffynonellau a reolir yn dda, a defnyddiwyd inciau a gafwyd o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r llyfryn hwn, a'r broses weithgynhyrchu, ill dau wedi'u hardystio gan yr FSC®.

Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Pan fyddwch wedi gorffen gyda'r llyfryn hwn, gallwch ei ailgylchu, ond a wnewch chi ystyried ei roi i ffrind neu ei adael mewn llyfrgell er mwyn i bobl eraill gael ei ddefnyddio. Diolch yn fawr.

Oriau swyddfa:
Dydd Llun - Ddydd Gwener
09:00 - 16:30

☎ (029) 2087 5274
✉ train@caerdydd.ac.uk

🐦 @CardiffUniCPD
📘 /CardiffUniCPD
🌐 @Company/CardiffUniCPD

Uned DPP
Prifysgol Caerdydd
21-23 Ffordd Senghennydd
Caerdydd
CF24 4AG